

DEDDF FFYRDD A STYDOEDD NEWYDD 1991
NODIADAU ESBONIADOL I DRWYDDEDEION/YMGEISWYR

O 1 Ionawr 1993, bydd pob Trwydded a roddir i berson i wneud gwaith yn y stryd yn cael ei rhoi o dan Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991 a bydd yn ofynnol cydymffurfio â'r Ddeddf honno.

- Adran 69 ac Atodlen 3 Cyn rhoi trwydded, rhaid i'r Awdurdod Stryd (sef yr awdurdod priffyrdd mewn perthynas â phriffordd gynaliadwy, neu reolwyr y stryd os nad yw'n briffordd gynaliadwy) Cyngor Sir Caerfyrddin roi o leiaf 10 niwrnod o rybudd i Ymgymerywyr ac i unrhyw rai eraill y bydd y gwaith yn debygol o effeithio arnynt.
- Adran 48 At ddiben gwaith stryd, bydd Trwyddedai yn 'ymgymerydd' ac i'r perwyl hwnnw, rhaid iddo gydymffurfio â'r holl reoliadau a chodau ymarfer yn y ddeddf newydd.
- Adran 65 Bydd gofyn i'r Trwyddedai osod arwyddion a gwarchod a goleuo gwaith yn unol â'r Côd Ymarfer ar gyfer Diogelu Gweithiau Stryd a Gweithiau Ffyrdd. Byddai peidio â gwneud hynny yn drosedd.
- Adran 67 Bydd dyletswydd ar y Trwyddedai i feddu ar y cymwysterau sy'n angenrheidiol ar gyfer goruchwylwyr a gweithredwyr.
O Awst 1994, bydd gofyn i berson cymwys oruchwyllo pob gwaith cloddio. Byddai peidio â gwneud hynny yn drosedd.
- Adrannau 70, 71 Rhaid i'r Trwyddedai gydymffurfio â Manyleb Pwyllgor Defnyddolion yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Adfer Gwaith Cloddio, a rhaid cwrdd â phob amserlen adfer warantiedig.
- Adran 75 Bydd yr Awdurdod Stryd (Cyngor Sir Caerfyrddin) yn archwilio gweithiau unigol yn unol â Chôd Ymarfer PDAP ar gyfer Archwiliadau.
- Adran 72 Os gwelir bod gwaith yn ddiffygiol, bydd yr Awdurdod Stryd yn dilyn y drefn briodol mewn perthynas â'r diffyg ac yn adennill ei gostau am unioni'r diffyg yn unol â'r drefn a ddisgrifir yn y Côd Ymarfer ar gyfer Archwiliadau a Manyleb Adfer Gwaith Cloddio ar y Briffordd.
Bydd y gost a godir yn cynnwys cost tri ymweliad i archwilio diffygion am £25 yr un, ynghyd â chost unrhyw archwiliadau eraill y gallai'r Awdurdod Stryd fod wedi'u cynnal.
- Adrannau 79 a 66 Mae dyletswydd ar y Trwyddedai i ddarparu cofnodion y cyfarpar y byddant yn ei osod, bod yn gyfrifol am gyfarpar ymgymerywyr eraill y gallai ei waith effeithio arno ac osgoi unrhyw beth diangen allai arafu neu rwystro'r gwaith.
- Atodlen 3(5)(6)(7) Rhaid i'r Trwyddedai hysbysu'r Awdurdod Stryd, o fewn yr amser rhagnodedig, os daw rhywun arall yn berchen ar ei drwydded neu os yw yn ei hildio.
- Adran 58 Rhaid i'r trwyddedai gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan yr Awdurdod Stryd o ran amseru'r gwaith neu gyfyngu'r gwaith
- Adran 3(8) Rhaid i'r trwyddedai brofi bod ganddo Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus pan fydd yn ymgeisio am drwydded.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Adran Gwasanaethau Technegol
Uned Gweithiau Stryd
Ffôn: (01267) 225155
Ffacs: (01267) 221083

DEDDF FFYRDD A STRYDOEDD NEWYDD 1991 AMODAU A DIFFINIADAU

Yn ôl Adran 48 y Ddeddf:

Mae ‘Stryd’ yn golygu pob un neu gyfran o’r canlynol, boed hi’n heol agored neu beidio:

- (a) unrhyw briffordd, heol, lôn, llwybr, ale neu basej,
- (b) unrhyw glos, sgwâr neu gwert, ac
- (c) unrhyw dir sydd wedi’i gynllunio fel ffordd, boed wedi’i ffurfio’n ffordd neu beidio.

Lle bo stryd yn mynd o dan bont neu drwy dwnel, bydd cyfeiriad at y rhan honno o’r stryd yn cynnwys y bont neu’r twnel.

Stryd nad yw’n briffordd gynaliadwy yn amodol ar rai eithriadau.

Mae ‘Gwaith Stryd’ neu ‘Gweithiau Stryd’ yn golygu unrhyw un o’r mathau canlynol o waith a wneir yn y stryd at ddiben arfer hawl statudol neu Drwydded Gweithiau Stryd:

- (a) gosod cyfarpar, neu
- (b) archwilio, cynnal, addasu, trwsio, newid neu adnewyddu cyfarpar, newid safle cyfarpar neu godi’r cyfarpar o’i le,

neu waith sydd ei angen at ddiben cyflawni’r gwaith neu waith sy’n gysylltiedig â’r gwaith hwnnw gan gynnwys yn arbennig, dorri neu gloddio stryd, neu dorri neu agor carthffos, draen neu dwnel oddi tani, neu dwneli neu dyllu o dan y stryd.

Mae “Ymgymerydd” mewn perthynas â gwaith stryd yn golygu’r person sydd â’r hawl i arfer hawl statudol perthnasol neu’r trwyddedai o dan y Drwydded Gweithiau Stryd berthnasol.

Yn ôl Adran 50 y Ddeddf:

Gall yr Awdurdod Stryd roi Trwydded (“Trwydded Gweithiau Stryd) sy’n caniatáu i berson -

- (a) osod neu gadw cyfarpar yn y stryd, ac
- (b) wedi hynny i archwilio, cynnal, addasu, trwsio, newid neu adnewyddu’r cyfarpar, newid ei safle, neu godi’r cyfarpar o’i le,

ac i wneud unrhyw waith at ddiben cyflawni’r gwaith neu waith sy’n gysylltiedig â’r gwaith hwnnw (gan gynnwys yn arbennig, dorri neu gloddio stryd, neu dorri neu agor carthffos, draen neu dwnel oddi tani, neu dwneli neu dyllu o dan y stryd).

Nid yw meddu ar Drwydded Gweithiau Stryd yn golygu na fydd gofyn i’r trwyddedai gael unrhyw fath arall o ganiatâd, trwydded neu ganiatâd y gallai fod ei angen.

Mae Atodlen 3 y Ddeddf yn disgrifio darpariaethau, amodau a materion eraill mewn perthynas â rhoi trwydded.

Yn ôl Adran 105 y Ddeddf:

mae “cyfarpar” yn golygu unrhyw fath o adeiladwaith a ddefnyddir i gadw cyfarpar neu ar gyfer mynd at gyfarpar.

Mae “yn” neu “mewn” mewn cyd-destun sy’n cyfeirio at waith, cyfarpar neu eiddo arall mewn stryd neu le arall yn cynnwys cyfeiriad at waith, cyfarpar neu eiddo arall a all fod oddi tano, ar ei draws, ar ei hyd neu ar ei ben.

DEDDF FFYRDD A STRYDOEDD NEWYDD 1991

TRWYDDED GWEITHIAU STRYD

Rhaid i'r Trwyddedai, boed adeiladwr bach neu ddatblygwr mawr, fod yn ymwybodol o'i ymrwymiadau o dan y Ddeddf o ran, er enghraifft:

- Diogelwch, arwyddion, goleuadau a gwarchod
- Cymwysterau Gweithredwyr a Goruchwylwyr
- Oedi a rhwystro
- Cyfarpar ymgwymerwyr eraill y gallai effeithio arnynt
- Adfer
- Cofnodion cyfarpar, ac
- Anghenion pobl anabl.

Bydd y trwyddedai hefyd yn ymwybodol o'r cyfyngiadau sydd mewn grym mewn strydoedd sydd o dan reolaeth arbennig neu rybuddion perthnasol Adran 58, ac y gallai'r awdurdod stryd fynnu cyfarwyddo'r gwaith o dro i dro.

Bydd y gofynion adfer a chyfnodau gwarantu yn union fel y rheini a fynnir ar ymgwymerwyr gweithiau stryd eraill.

Dylid gosod cyfarpar lle bo'n bosibl yn unol â chyhoeddiad rhif 7 yr NJUG (i'w gael oddi wrth y National Joint Utilities Group, 30 Millbank, Llundain SW1P 4RD).